Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Gwasanaeth Cymdogaeth, Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd

Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2019

I gyflawni Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 Rheoli Ansawdd Aer Lleol

Dyddiad (Medi 2019)

Swyddog yr Awdurdod Lleol	Peter Oates
Adran	Gwasanaethau Cymdogaeth, Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd
Cyfeiriad	Tŷ Blaen Torfaen, Panteg Way, Y Dafarn Newydd, Pont-y-pwl, Torfaen, NP4 0LS
Rhif Ffôn	01633 647290
Ebost	peter.oates@torfaen.gov.uk
Rhif Cyfeirio'r Adroddiad	TCBC PR 2019
Dyddiad	Medi 2019

Crynodeb Gweithredol: Ansawdd Aer yn ein Hardal

Ansawdd Aer yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae llygredd aer yn deillio o ryddhau amrywiol sylweddau i'r atmosffer o amrywiaeth eang o ffynonellau. Gall achosi effeithiau byrdymor a hirdymor ar iechyd, ond hefyd ar yr amgylchedd yn ehangach. Mae ansawdd yr aer yng Nghymru yn gyffredinol yn well nawr nag y bu ers y Chwyldro Diwydiannol.

Cyflawnwyd y gwelliannau hyn drwy gyflwyno deddfwriaeth yn gorfodi rheolaeth lymach ar allyriadau llygryddion o ffynonellau allweddol, yn nodedig diwydiant, hylosgi domestig a thrafnidiaeth. Serch hynny, er gwaethaf y gwelliannau a gafwyd, mae llygredd aer yn cael ei gydnabod o hyd fel risg i iechyd, ac mae llawer o bobl yn bryderus ynglŷn â'r llygredd yn yr aer maent yn ei anadlu.

Mae ystadegau'r llywodraeth yn amcan bod llygredd aer yn y DU yn gostwng disgwyliad einioes pob person gan gyfartaledd o 7-8 mis, gyda chost gysylltiedig o hyd at £20 biliwn bob blwyddyn. Mae Deddfwriaeth a Pholisïau gyda'r nod o leihau ac olrhain effaith llygredd aer ar iechyd a'r amgylchedd wedi eu cyflwyno yn Ewrop, y DU a Chymru.[1]

Gellir datgan Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) pan fo gormodaeth neu mae'n debygol y bydd gormodaeth o amcan ansawdd aer. Ar hyn o bryd, nid oes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen unrhyw ARhAA.

Mae Torfaen yn monitro gronynnau ac ocsidau nitrogen yn rheolaidd ar safle cefndir trefol yn ysgol uwchradd Croesyceiliog ac yn 2018 defnyddiodd 20 o diwbiau tryledlad i fonitro deuocsid nitrogen ledled y fwrdeistref.

Dengys data monitro bod tuedd gefndirol gronynnau dros y 3 blynedd wedi mynd i lawr ychydig er bod y duedd mwy hirdymor dros yr 16 blynedd flaenorol yn ymddangos yn eithaf sefydlog. Mae deuocsid nitrogen wedi aros yn eithaf sefydlog ers 2006 ac mae data tiwbiau tryledlad hefyd wedi aros yn eithaf sefydlog dros y 5 mlynedd flaenorol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gweithio gyda diwydiant lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru drwy'r drefn Trwyddedau Amgylcheddol i helpu i reoli ansawdd yr aer, ac mae gan y Cyngor hefyd rôl weithgar o fewn fforwm Ansawdd Aer Cymru.

1. Lllywodraeth Cymru, gwefan Ansawdd Aer yng Nghymru
https://airquality.gov.wales/about-air-quality

Nid oes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen unrhyw ARhAA ac felly nid oes cynllun gweithredu ffurfiol gan nad yw amcanion cenedlaethol yn cael eu torri. Serch hynny, mae'r Cyngor yn ceisio cynnal a gwella'r ansawdd aer da a gaiff ei fwynhau gan ei drigolion drwy gydweithio agos rhwng adrannau, craffu ar geisiadau cynllunio a allai fod yn niweidiol i ansawdd aer a gorfodi cyfyngiadau allyriad Trwyddedau Amgylcheddol. Mae'r tîm Iechyd Cyhoeddus yn delio gyda chwynion o losgi sy'n niwsans a rhoi cyngor ar danwydd priodol ar gyfer stofiau llosgi pren domestig. Mae'r Cyngor hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o gynlluniau i wella seilwaith gwyrdd, hybu teithio llesol a gwella'r llwybrau teithio llesol yn y fwrdeistref.

Blaenoriaethau a Heriau Lleol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ceisio cynyddu ei ddealltwriaeth o ansawdd aer yn y fwrdeistref ac felly yn 2018 bu i ni gynyddu'r nifer o diwbiau monitro tryledlad bob mis i 20. Bydd canlyniadau'r tiwbiau hyn yn cael eu hadrodd yn yr adroddiad cynnydd hwn. Arweiniodd hyn at adael 5 safle a oedd yn gyson wedi adrodd am gyfartaleddau blynyddol isel cyson a monitro 5 safle newydd a adnabuwyd fel rhai a fyddai'n elwa o fonitro oherwydd lleoliadau naill ai yn yr Ardaloedd Blaenoriaeth Cynlluniau Gweithredu ar Sŵn (ABCGS) neu ardaloedd lle amheuir y mae allyriad uwch na'r safleoedd a adawyd. Rhagwelir, rhyw dro yn 2020, y bydd yr orsaf monitro parhaus yn nhiroedd ysgol uwchradd Croesyceiliog yn cael ei chau dros dro. Mae hyn oherwydd bod ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar y safle fel rhan o brosiect ysgolion yr 21ain ganrif a phan fydd wedi ei chwblhau, bydd yr hen ysgol yn cael ei dymchwel. Mae'r ffaith bod yr orsaf monitro parhaus mor agos at yr hen ysgol yn golygu na fyddai mesuriadau ansawdd aer yn ddibynadwy yn ystod y cyfnod dymchwel.

Sut i Gymryd Rhan

Mae gwybodaeth bellach ar ansawdd aer yn ardal Torfaen ac yn gyffredinol ar gael drwy fynd i'r adran ar ansawdd aer ar ein gwefan yma:

https://www.torfaen.gov.uk/cy/PestsPollutionHygiene/Pollution/Pollutioncontrol-airquality/Air-Quality.aspx

a thrwy fynd i wefan ansawdd aer Llywodraeth Cymru yma:

https://airquality.gov.wales/air-pollution/site/CWMB

https://airquality.gov.wales

Os oes gennych gwestiynau penodol, gallwch gysylltu â'r tîm Iechyd Cyhoeddus drwy ebost:

public.health@torfaen.gov.uk

neu ein ffonio ar 01495 762200.